

Cyd-bwyllgorau Llai yng Nghymru

Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2022

2

DEWIS IAITH


Nodwch sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi yn ystod yr archwiliad. Noder y bydd hysbysiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

| | | | | | | | | |
|----------------|--------------------------|--------------------------|----------------|--------------------------|--------------------------|-------------------|--------------------------|--------------------------|
| | Ie | Na | | Ie | Na | | Ie | Na |
| SAESNEG | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | CYMRAEG | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | DWYIEITHOG | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |

Y CYFRIFON A'R BROSES ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru (gan gynnwys cyd-bwyllgorau) lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol ar gyfer cyd-bwyllgorau llai ag incwm a gwariant islaw £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf Ffurflen Flynyddol. Mae'r Ffurflen Flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr. Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a **chwblhewch bob adran mewn pinc**.

CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Os nad yw'n gallu cwblhau'r broses gymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2022 neu gyhoeddi'r ffurflen a archwiliwyd erbyn 30 Medi, rhaid i'r Pwyllgor gyhoeddi hysbysiadau fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau.

Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. **NI CHAIFF** y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiadau cyfrifyddu 2021-22 ar gyfer:

Enw'r corff:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---------------------------|-----------------------|--|
| | 31 Mawrth 2021 (£) | 31 Mawrth 2022 (£) | Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol. |
| Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau | | | |
| 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| 2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 221,829 | 248,519 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrrff. |
| 3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 137,385 | 198,969 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a reffeniw. |
| 4. (-) Costau staff | -199,271 | -214,221 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogaion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu. |
| 5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| 6. (-) Cyfanswm taliadau eraill | -159,943 | -233,267 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5). |
| 7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| Datganiad o falansau | | | |
| 8. (+) Dyledwyr | 32,405 | 63,598 | Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff. |
| 9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | -31,675 | -57,004 | Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc. |
| 10. (-) Credydwyr | -730 | -6,594 | Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 0 | Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| 12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 496,912 | 496,912 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| 13. Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partion ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

Datganiad Llywodraeth Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|---|-------------------------------------|-------------------------------------|---|-----------------------------|
| | Do | Naddo* | | |
| <p>1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| <p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| <p>3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| <p>4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad. | 6, 23 |
| <p>5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebwr ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| <p>6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff. | 6, 8 |
| <p>7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymglyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| <p>8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

* Ar ddalen ar wahân, rhwch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol*

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiad cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1.


2.

3.

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiad cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| | |
|--|--|
| Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. | Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: |
| Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:  | Cyfeirnod cofnod: |
| Enw: Dewi Aeron Morgan | Llofnod Cadeirydd y cyfarfod: |
| Dyddiad: 25/05/2022 | Enw: |
| | Dyddiad: |

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon dan adran 13 o'r Ddeddf, pa un a yw unrhyw faterion a ddaw i'm sylw'n rhoi achos i bryderu na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Barn archwilio

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]* Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol;
- yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; ac
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Materion eraill sy'n codi ac argymhellion

Tynnaf sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar fy marn archwilio ond y dylai'r corff fynd i'r afael â hwy. / Nid oes unrhyw faterion pellach nac argymhellion yr wyf yn dymuno'u dwyn i sylw'r Pwyllgor.*

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Harbyrau Cyngor Gwynedd

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|--|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| 1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| 9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |

| Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar ddalenni ar wahân os oes angen: | | | | | |
|---|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|---|
| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| 11. Mewnosoder y maes risg | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 12. Mewnosoder y maes risg | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |
| 13. Mewnosoder y maes risg | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | <input checked="" type="checkbox"/> | Mewnosoder y testun |

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch ddalenni ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2022.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf fi/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| |
|--|
| Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Luned Fôn Jones |
| Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: <i>Luned Fôn Jones</i> |
| Dyddiad: 25 Mai 2022 |

Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r Ffurflen Flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol.
- Defnyddiwch ail bâr o lygaid, y Cadeirydd neu aelod efallai, i adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llynell 7 o 2020) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llynell 1 o 2021). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigyrau 2020 ar y Ffurflen Flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn Ffurflen Flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae ar yr archwilydd allanol eisiau gwybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Dylai'r archwilydd allu gweld cyfatebiaeth rhwng eich cysoniad banc a llynell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Rhaid i chi anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol i ategu'r haeriadau a wneir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthyhch pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nad ofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc neu esboniad am amrywiannau sy'n anghyflawn neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn cadw cost yr archwiliad mor isel â phosibl.
- Sylwer, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

| Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion | | Cwblhawyd? | |
|---|--|------------|-------|
| Cyflwyno gyntaf i'r archwilydd allanol | | Do | Naddo |
| Cyfrifon | A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni? | ✓ | |
| | A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2022 yn gyson â Llynell 9? | ✓ | |
| Cymeradwyo | A yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 30 Mehefin 2022 fan bellaf? | ✓ | |
| | A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2022 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth? | ✓ | |
| Pob adran | A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen? | ✓ | |
| | A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. | ✓ | |

| Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi | | Do | Naddo |
|---|--|----|-------|
| Cyfrifon | A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel dystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd? | | |